LLANFIHANGEL GENAU'R GLYN (*St Michael's church in the vale's mouth*) is surely the prettiest place-name in Wales. This ancient name for Llandre has been the inspiration for a poetry path in a village woodland.

Poetry has deep roots here. In the 12th century, local courts sponsored their favoured poets and Wales' most celebrated medieval poet, Dafydd ap Gwilym, walked the paths in this area.

The neighbourhood boasts links with poets of national standing, a tradition which continues until today. Poetry contests of all kinds are regularly held in the village.

The path is a unique experience for people of all ages. Savour the poems in the peace and beauty of the vale. Individuals, families, groups and societies come to enjoy the path. It can be walked relatively easily within an hour. It would be wise to bring suitable footwear.

St Michael's church is nearby and is open daily. The atmospheric graveyard on the steep wooded slopes surrounding the church brims with history. The oldest yew tree in Ceredigion can be found here; a 2,000 year old tree indicates that the site has been a sacred place since ancient times.

Above the path is Castell Gwallter, the remains of an old Norman motte and bailey castle built in about 1120 by Walter de Bec.

It's easy to find the Poetry Path. Take the B4353 (SY24 5BZ) to Llandre and cross the railway by the park in the centre of the village. There is a car park below the church, and in the church you will find public conveniences. The Poetry Path leads from the lychgate.

The Poetry Path can be walked as part of a circular route. At the far end of the path, take another footpath back down the opposite side of the stream, which will lead you back to the graveyard and the church.

The path is free and is open every day of the year.

Leaflet sponsored by Cronfa Eleri

Photos: Iestyn Hughes and Dr Phil Jones
Design: stiwdio@ceri-talybont.com
Printing: Y Lolfa 01970 832304

Treftadaeth Llandre Heritage

Llwybr Llên

Llanfihangel Genau'r Glyn Poetry Path

Llandre, Ceredigion

Cerddi mewn coedwig

"Ysbrydoliaeth ..."

LLANFIHANGEL GENAU'R GLYN yw un o'r enwau tlysaf yng Nghymru. Bu'r hen enw hwn ar Landre yn ysbrydoliaeth i greu llwybr o farddoniaeth mewn coedlan yn y pentref.

Mae yma draddodiad hir o farddoni. 'Nôl yn y 12fed ganrif roedd llysoedd y fro yn noddi beirdd a bu bardd enwocaf Cymru, Dafydd ap Gwilym, yn crwydro'n gyson ar hyd llwybrau'r ardal.

Mae gan nifer o brifeirdd gysylltiad â'r ardal a heddiw mae nythaid o feirdd cydnabyddedig yn byw yma. Cynhelir gornestau barddoni yn gyson yn y gymuned.

Mae'r llwybr yn cynnig profiad unigryw i bobl o bob oed a gallwch fwynhau'r cerddi yn nhawelwch a harddwch y Glyn. Daw unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymdeithasau i gerdded y llwybr. Gellir ei gerdded yn weddol hawdd o fewn rhyw awr ac mae'n ddoeth gwisgo pâr o sgidiau addas.

Mae eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn wrth law ac ar agor yn ddyddiol. Mae'r fynwent sy'n gorwedd ar lechweddau serth o gwmpas yr eglwys yn gyforiog o hanes. Wrth dalcen yr eglwys mae'r ywen hynaf yng Ngheredigion, sy'n dyddio 'nôl 2,000 o flynyddoedd. Mae'n dyst bod yma fangre sanctaidd ganrifoedd lawer yn ôl.

Uwchlaw'r llwybr mae Castell Gwallter, gweddillion hen gaer Normanaidd a adeiladwyd tua 1120 gan Walter de Bec.

Mae'n hawdd dod o hyd i'r llwybr. Teithiwch ar y B4353 (SY24 5BZ) i bentref Llandre a chroesi'r rheilffordd ger y parc yng nghanol y pentref. Ceir lle parcio o dan yr eglwys ac mae cyfleusterau cyhoeddus yn yr eglwys. Mae'r Llwybr Llên yn cychwyn wrth ymyl porth yr eglwys.

Gallwch wneud cylchdaith hwylus drwy gerdded y Llwybr Llên a dychwelyd drwy ddilyn llwybr arall sy'n arwain drwy'r fynwent ac yn ôl i'r eglwys.

Does dim tâl am gerdded y llwybr ac mae ar agor bob dydd o'r flwyddyn.

Noddwyd y daflen gan Gronfa Eleri

Lluniau: Iestyn Hughes a Dr Phil Jones
Dylunio: stiwdio@ceri-talybont.com
Argraffu: Y Lolfa 01970 832304

Treftadaeth Llandre

Llwybr Llên
Llanfihangel Genau'r Glyn
Poetry Path

Llandre, Ceredigion

Words in woods

"Inspirational ..."